

Cynllun Corfforaethol 2013/14

Copiâu pellach ar gael gan:

E-bost ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk
Ffôn 0300 123 0735
Ffôn testun 0845 6 02 16 59 (ar gyfer pobl sydd a nam ar y clyw)
Ein gwefan www.cronfaloterifawr.org.uk

Hygyrchedd

Cysylltwch a ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gennych.

Ein hegwyddorion cydraddoldeb

Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol; hyrwyddo cymryd rhan; hyrwyddo cyfle cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais ac eithrio. Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth.

Rydym yn gofalu am yr amgylchedd

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gweithio tuag at ddatblygiad cynaliadwy a'r defnydd o adnoddau cynaliadwy.

Ein cenhadaeth

Rydym wedi'n hymrwymo i ddod a gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Ein gwerthoedd

Rydym wedi adnabod tri gwerth sy'n sail i'n gwaith: gwneud y defnydd gorau o arian Loteri, defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth a bod yn gefnogol ac yn barod i helpu.

Gallwch gael gwybod mwy amdanom ni, ein gwerthoedd a'r rhaglenni ariannu a gynigiwn drwy fynd i'n gwefan, www.cronfaloterifawr.org.uk

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, a hynny fel dosbarthwr grantiau a chyflogwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn anelu at fabwysiadu ymagwedd gynhwysol at sicrhau bod ymgeiswyr a derbynyddion grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi a gweithwyr yn cael eu trin yn deg.

© Cronfa Loteri Fawr, Gorffennaf 2013

Cronfa Loteri Fawr Cynllun Corfforaethol 2013/14

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Amdanom ni
3. Ynglŷn â'r cynllun hwn
4. Amcanion corfforaethol a dangosyddion perfformiad allweddol 2013/14
5. Risgiau
6. Atodiad A Uwch dîm rheoli
7. Atodiad B Aelodau Bwrdd a phwyllgorau

Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Ers i'r Loteri Genedlaethol ddechrau ym 1994, mae dros £30 biliwn wedi'i ddosbarthu i gefnogi'r celfyddydau, chwaraeon, treftadaeth, elusennau, iechyd, addysg a'r amgylchedd. Y Gronfa Loteri Fawr yw'r dosbarthwr unigol mwyaf.

Ers 2006 rydym wedi dyfarnu grantiau i 74,767 o brosiectau sydd wedi gwella bywydau, trawsnewid cymunedau a chreu miloedd o gyfleoedd swyddi a gwirfoddoli. Wrth i ni lunio'r cynllun corfforaethol hwn ar gyfer 2013/14, mae 29,500 o brosiectau ar waith sy'n dod â buddion i bron bob ardal cod post ar draws y DU. Eleni mae gennym hyd at £1,044 biliwn i'w ymrwymo.

Rydym yn benderfynol bod yr arian a gynigiwn i achosion da'n gwella ansawdd bywyd ar gyfer cymunedau mewn ffyrdd sy'n unigryw ac yn ychwanegol at wariant y Llywodraeth. Mae Meddwl o'r Newydd, ein fframwaith strategol hyd at 2015, yn dangos sut rydym yn ariannwr ar sail canlyniadau, yn ymrwymedig i wneud gwir welliannau i gymunedau a bywydau pobl mewn angen. Mae ariannu ar gyfer y sector gwirfoddol a chymunedol yn parhau'n ymrwymiad craidd. Byddwn yn helpu grwpiau i ddechrau ymwneud â'r materion lleol sy'n bwysicach iddynt. Yn ogystal â chreu buddion ar gyfer y rhai sy'n ddigon ffodus i fod â mynediad i effeithiau uniongyrchol ein buddsoddiadau, yn gynyddol ein nod yw dylanwadu ar arfer prif ffrwd ymhell y tu hwnt i'r arian a ddarperir gan y Gronfa Loteri Fawr yn unig.



Mae ein cynllun yn dangos tri gwerth sy'n bwysig o ran y ffordd yr ydym yn gweithio: bod yn gefnogol ac yn barod i helpu; defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth; a gwneud y defnydd gorau o arian y Loteri. Pan gynhaliwyd arolwg o'n budd-ddeiliaid y llynedd a gofynnwyd iddynt ddewis un gair i ddisgrifio'r Gronfa Loteri Fawr, roedd yn galonogol gweld y canlynol fel yr ansoddeiriau a ddewiswyd yn



amlaf: credadwy, cefnogol, profiadol, hygyrch, perthnasol, strategol a dibynadwy.

Oherwydd ein cyflawniadau, ein pobl a'r perthnasoedd cryf a fwynhawn gyda phartneriaid a chwsmeriaid, rydym mewn sefyllfa dda i wynebu'r dyfodol. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â hwy i wella'r ffordd a wnawn bethau. Rydym yn falch o rannu ein hymchwil, dysgu a gwerthusiadau o'r hyn a ariannwn. Pan fo'n briodol,

byddwn yn parhau i ddarparu ein systemau a'n sgiliau i eraill eu defnyddio ac yn cyflawni gwaith ar gyfer trydydd partion, gan sicrhau nad yw hyn yn tarfu mewn unrhyw ffordd ar ein gallu i gyflwyno canlyniadau rhagorol yn sgil ariannu at achosion da gan y Loteri Genedlaethol.

Eleni bydd y Gronfa Loteri Fawr yn gweld newid mewn arweinyddiaeth wrth i Dawn Austwick ymgymryd â swydd y Prif Weithredwr o 1

Hydref 2013. Gwyddwn ei bod hi'n awchu am y cyfle i gymryd yr awenau ac adeiladu ar ein gwaith hyd yma.

Peter Wanless
Prif Weithredwr

Peter Ainsworth
Cadeirydd

Amdanom ni

Y Gronfa Loteri Fawr (y Gronfa) yw'r mwyaf o'r dosbarthwyr Loteri ac fe'i sefydlwyd pan ddaeth Deddf y Loteri Genedlaethol 2006 i rym. Ein cenhadaeth yw dod â gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Llywodraethu corfforaethol:

Fel corff cyhoeddus anadrannol mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i noddi gan Swyddfa'r Cabinet. Gall fod yn ofynnol i ni roi tystiolaeth i bwyllgorau seneddol a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Mae ein fframwaith llywodraethu wedi'i ddarparu gan Swyddfa'r Cabinet a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) mewn ymgynghoriad â'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n cynnwys:

- ▶ Cyfarwyddiadau Polisi a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet a'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae'r rhain yn amlinellu'r materion y dylem eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu sut i wario arian Loteri ym mhob un o wledydd y DU;
- ▶ Cyfarwyddiadau Ariannol a'r Datganiad o Ofynion Ariannol, wedi'u cyhoeddi gan DCMS, sy'n amlinellu sut y dylem reoli arian y Loteri; a
- ▶ Chyfarwyddiadau Cyfrifon, wedi'u cyhoeddi gan DCMS, sy'n amlinellu sut rydym yn atebol am ddefnyddio arian y Loteri.

Mae'r Datganiad Rheoli, sydd wedi'i lunio fel cytundeb ar y cyd, yn diffinio'r berthynas rhwng y Gronfa Loteri Fawr, Swyddfa'r Cabinet a DCMS, ac yn amlinellu fframwaith bras ein dull gweithredu. Rydym hefyd yn ystyried arweiniad a gyhoeddir gan y Trysorlys a DCMS, Swyddfa'r Cabinet a'r Swyddfa Cymdeithas Sifil, sy'n rhan o Swyddfa'r Cabinet. Caiff yr holl gyfarwyddiadau hyn eu rhoi ar waith drwy ein polisiau a'n gweithdrefnau mewnol.

Mae gennym bwerau ariannu helaeth sy'n ein galluogi i wneud grantiau (neu fenthyciadau) i sawl math gwahanol o fudiad yn y sectorau elusennol, gwirfoddol a chymunedol, cyhoeddus a phreifat.

Gallwn hefyd ddsbarthu arian nad yw'n dod o'r Loteri ar ran mudiadau eraill.

Mudiad

Pennaeth y Gronfa Loteri Fawr yw'r Prif Weithredwr sy'n gweithredu fel Swyddog Cyfrifon ac yn cadeirio'r Uwch Dîm Rheoli. Mae'r Uwch Dîm Rheoli'n cadw trosolwg o weithrediadau'r mudiad o ddydd i ddydd ac yn sicrhau bod penderfyniadau'r Bwrdd yn cael eu rhoi ar waith. Hefyd, mae'n ystyried ystyried polisiau a materion strategol a gweithredol allweddol cyn unrhyw newidiadau a allai gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd ac mae'n gyfrifol am adnabod a rheoli risgiau corfforaethol. Mae gan y mudiad swyddfeydd yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r cyfarwyddwyr sy'n aelodau o'r UDRh, ynghyd â'u cyfrifoldebau ar gyfer 2013/14, wedi'u dangos yn Atodiad A.

Llywodraethu mewnol

Mae Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr yn sicrhau bod y mudiad yn cydymffurfio â deddfwriaeth ac unrhyw Gyfarwyddiadau, yn cymeradwyo strategaethau a pholisiau cyffredinol ac yn cytuno ar y gyllideb weithredu a'r cyllidebau ar gyfer rhaglenni ariannu, ac mae hefyd yn eu goruchwyllo. Mae'r Bwrdd yn penderfynu ac yn goruchwyllo ar lefel strategol sut y caiff ein holl raglenni dyfarnu grantiau eu rhedeg. Mae'n gyfrifol am oruchwyllo gweinyddiaeth y mudiad, gan gynnwys penodi'r Prif Weithredwr. Mae'n ystyried y gyllideb flynyddol, yn goruchwyllo gwariant ac yn monitro'r cyflenwad staffio a'i strwythur, amodau a thâl staff ac agweddau eraill ar reoli adnoddau dynol.

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, pedwar aelod sy'n cadeirio'r pedwar pwyllgor gwlad a hyd at bum aelod cyffredinol. Maent oll yn swyddi anweithredol a benodir gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet, sy'n cael cydsyniad gan y gweinyddiaethau datganoledig ynghylch penodi'r cadeirydd ym mhob gwlad. Mae'r Bwrdd wedi penderfynu penodi Is-gadeirydd, sef un o aelodau cyffredinol y Bwrdd ar hyn o bryd. Mae pwerau'r Bwrdd wedi'u dirprwyo fel y bo'n briodol i'r

pwyllgorau. Mae pob pwyllgor wedi'i gadeirio gan aelod o'r Bwrdd.

Darperir ar gyfer pwyllgorau gwlad Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn y ddeddfwriaeth. Maent yn gyfrifol am bortffolios grant a pholisïau cysylltiedig yn y pedair gwlad yn ogystal â phenderfyniadau am ddyfarniadau o fewn y fframwaith polisi cyffredin y cytunwyd arno gan Fwrdd y DU. Penodir aelodau gan y Bwrdd yn amodol ar ganiatâd, fel y bo'n briodol, gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet neu'r Gweinidog arweiniol yn y weinyddiaeth ddatganoledig berthnasol. Yn ystod 2011 cafodd pwerau newydd eu dirprwyo i bwyllgorau gwlad i addasu cyllidebau rhaglen o fewn cyfansymiau cyffredinol a chyllidebau rhaglen dangosol a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi penodi pwyllgor ariannu wyth aelod a gadeirir gan Gadeirydd y DU ac sy'n cynnwys aelodau Bwrdd a phwyllgor gwlad, i oruchwylio llywodraethu rhaglenni grant sy'n gweithredu ar lefel y DU.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau yn cymeradwyo'r rhaglen archwilio fewnol, yn cadarnhau'r gofrestr risgiau ac yn craffu canlyniad adroddiadau archwilio mewnol ac allanol. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys dau aelod a benodir yn allanol i ychwanegu at fewnbnw ar lefel y Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn ystyried perfformiad a thâl cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr.

Mae'n rhaid i'r holl Aelodau Bwrdd a phwyllgor ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol o dan ein Côd Ymddygiad. Gwneir y datganiadau yn ysgrifenedig ac fe'u delir ar ffeil gan Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd. Gall y cyhoedd eu harchwilio drwy ysgrifennu at y Prif Weithredwr. Cyhoeddir datganiadau aelodau'r Bwrdd ar wefan y Gronfa Loteri Fawr hefyd.

Gallwch weld rhestr o aelodau'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn Atodiad B.



Ynglŷn âr cynllun hwn



Cyflwynodd Swyddfa'r Cabinet Gyfarwyddiadau Polisi ar gyfer y DU a Lloegr i'r Gronfa Loteri Fawr ar 26 Mawrth 2012. Mae'r rhain ar gael ar wefan Swyddfa'r Cabinet: www.cabinetoffice.gov.uk/resource-library/new-policy-directions-big-lottery-fund.

Rydym wedi'u defnyddio fel sail i adnabod ein blaenoriaethau a'n targedau ar gyfer 2013/14 ac i bennu cynnydd hyd at 2015.

Dylid darllen Meddwl o'r Newydd, ein cynllun strategol wedi'i ddiweddarau a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2012, ar y cyd gyda'r cynllun blynyddol hwn gan ei fod yn rhoi'r gyllideb a thargedau blynyddol a ddisgrifir yn y tudalennau a ganlyn yn eu cyd-destun. Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan yn: www.biglotteryfund.org.uk/welsh/index/about-uk/fresh_thinking.htm


Erys ein cenhadaeth ac egwyddorion sylfaenol ein cynllun strategol heb eu newid, a byddant yn parhau'n rhan annatod o bopeth a wnawn. Nhw yw'r

hyn y mae'r Gronfa'n sefyll drosto a'r hyn y gall ein budd-ddeiliaid ei ddisgwyl gennym fel ariannwr. Mae ein blaenoriaethau ariannu'n cymryd ein Cyfarwyddiadau Polisi a datblygiadau yn yr amgylchedd allan yr ydym yn gweithredu ynddo i ystyriaeth, gan roi saith maes blaenoriaeth i ni. Mae'r egwyddorion a'r blaenoriaethau ariannu wedi'u crynhoi isod.

Nid yw egwyddorion sylfaenol y Gronfa Loteri Fawr wedi newid

- ▶ Erys ein cenhadaeth heb ei newid - byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi cymunedau a'r bobl fwyaf anghenus
- ▶ Rydym yn ariannwr ar sail canlyniadau ymrwymedig
- ▶ Byddwn yn parhau i weithredu portffolio ariannu cymysg, gan olygu y byddwn yn defnyddio ystod o dechnegau i gyfeirio arian i'r achosion y bydd yn cael yr effaith fwyaf arnynt.
- ▶ Byddwn bob amser yn hyrwyddo cydraddoldeb

Mae Meddwl o'r Newydd yn rhan annatod o'n cynllun corfforaethol



- ▶ Byddwn yn dosbarthu'r mwyafrif o'n hariannu i'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol (SGCh)
- ▶ Parhawn i werthfawrogi dysgu sy'n cyfrannu at rannu a chynnal arfer da
- ▶ Byddwn yn parhau i ddatblygu rhaglenni ac ariannu prosiectau sy'n ychwanegol at wariant y Llywodraeth
- ▶ Byddwn yn parhau i gefnogi pobl sy'n profi unigedd neu newidiadau anodd yn eu bywydau

Blaenoriaethau ariannu'r Farn Fawr rhwng nawr a 2015

Fe'n hymrwymwyd i flaenoriaethau penodol gan Meddwl o'r Newydd

- ▶ Canolbwyntio ar y bobl fwyaf anghenus
- ▶ Creu partneriaethau a hwyluso cydweithio
- ▶ Cynnwys pobl a chymunedau
- ▶ Adeiladu mudiadau cryfach

- ▶ Cefnogi datblygiad buddsoddi cymdeithasol
- ▶ Cyflwyno canlyniadau gydag eraill
- ▶ Cynyddu cysylltiadau gyda'r sector preifat

Yn ystod 2013/14 bydd y Bwrdd yn dechrau gosod y sylfaen ar gyfer strategaeth ariannu'r Gronfa yn y dyfodol y tu hwnt i 2015, yn seiliedig ar ddadansoddiad o effaith, dysgu o'r tu mewn i'n hariannu a'r byd ehangach, a rhagfynegi anghenion cymdeithasol dros y tymor hwy. Bydd cyfarwyddiadau polisi newydd gan Lywodraeth Cymru, i'w cyhoeddi'n ddiweddarach eleni, ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus yng Nghymru cyn hynny, yn elfen o ddatblygu'r strategaeth hon. Cytunwyd y byddai'r Gronfa'n cyflawni'r ymgynghoriad ar gyfarwyddiadau polisi eleni ar ran Llywodraeth Cymru.

Amcanion corfforaethol ar gyfer 2013/14

Mae gan y Gronfa Loteri Fawr dri amcan corfforaethol:

Amcan corfforaethol un: Effeithlonrwydd - rydym yn rheoli arian cyhoeddus yn effeithlon.

Amcan corfforaethol dau: Canolbwyntio ar gwsmeriaid - dywedodd y rhai sydd wedi ymholi am ein hariannu, ymgeisio amdano neu ei dderbyn ein bod yn darparu gwasanaeth ardderchog iddynt. Mae gennym berthnasoedd cryf a chadarnhaol gyda budd-ddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Amcan corfforaethol tri: Effeithiolrwydd - mae ein rhaglenni ariannu'n dod â gwir welliannau i fywydau ein buddiolwyr.

Mae cyflwyno gweledigaeth hir dymor Meddwl o'r Newydd yn llwyddiannus yn gofyn am bennu cynlluniau a thargedau blynyddol clir. Felly o dan bob amcan ar y tudalennau a ganlyn rydym yn amlinellu crynodeb o'r gweithgareddau a set o fesurau perfformiad.



Amcan corfforaethol un: **Rydym yn rheoli arian cyhoeddus yn effeithlon**

Byddwn yn mesur ein llwyddiant yn erbyn yr amcan hwn drwy fonitro gwariant yn erbyn cyllidebau a thargedau ariannol yn barhaus.

Dangosyddion perfformiad allweddol:

- y cyfanswm ariannu a ddyfarnwyd
- gwerth y dyfarniadau i'r trydydd sector
- taliadau grant go iawn erbyn diwedd y flwyddyn, o'i gymharu â'r rhagamcaniad o daliadau
- cyfanswm costau gweithredu fel canran o incwm y Loteri
- costau gweithredu craidd fel canran o incwm y Loteri

Cyllidebau grant

Ar sail cyngor gan y pedwar pwyllgor gwlad a Phwyllgor Ariannu'r DU, mae'r Bwrdd wedi cwblhau adolygiad o'r gyllideb ar gyfer 2013/14 yn unol â'n strategaeth ariannu. Mae'r strategaeth hon wedi'i dylunio i ledu'r buddion a gronnir bob blwyddyn o lefel y dyfarniadau a'r taliadau dros y cyfnod pum mlynedd nesaf. Cymeradwyodd y Bwrdd gyllidebau grant ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2014 ar gyfer rhaglenni ariannu newydd a phresennol, gwerth cyfanswm o £1044.67M. Y gyllideb grant a



gymeradwywyd ym mis Mawrth 2013 oedd £770 miliwn.

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn dangos y cyllidebau cymeradwy ar gyfer rhaglenni grant sydd i'w cymeradwyo yn ystod y flwyddyn. Cyhoeddir rhaglenni trwy ein gwefan pan fyddant yn barod i'w lansio. Sylwer y defnyddir 'teitlau gweithio' mewn rhai achosion a bydd yr enw yn cael ei ddiwygio pan fyddwn yn cwblhau adeiladu'r rhaglenni hyn.

Mae'n bosib y bydd y Bwrdd yn gwneud addasiadau pellach gan fod y cyfrifon blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn wedi adnabod oddeutu £15 miliwn o danwariant ar gyllideb grant 2012/13. Efallai y ceir newidiadau eraill oherwydd bod y Bwrdd wedi dirprwyo awdurdod i'r pedwar pwyllgor gwlad i benderfynu p'un a yw rhaglenni'n cael 'golau gwyrdd' terfynol a chaniatâd i amrywio cyllidebau rhwng rhaglenni o fewn cyfanswm cyffredinol y gyllideb grant.



Ein Cyllideb Grant 2013/14 £1,044.67m

	Cyllideb Gymeradwy 13/14 £m		Cyllideb Gymeradwy 13/14 £m
Ariannu DU gyfan		Ariannu yn Lloegr	
Buddsoddiad 1	2.00	Advice Services Transition Fund	72.50
Sgiliau Digidol	15.00	Arian i Bawb (Lloegr)	57.00
Yr Amgylchedd	0.05	Dyfarniadau Unigol	30.00
Arwyr yn Ôl 2	2.92	Capabilities Strategy	9.08
Buddsoddiad 5	0.45	Co-commissioning Fund	2.45
Cymunedau Rhyngwladol	16.71	Fulfilling Lives: A Better Start (Blynyddoedd Cynnar)	165.00
Dysgu er Effaith	6.90	Investing in Ideas	4.17
Ailfeddwl Iechyd Da	0.05	Fulfilling lives: Ageing Better	130.00
Pobl Hŷn - Urddas	0.05	Investment Readiness Fund - contract	11.00
Etifeddiaeth Olympaidd – Dyfarniadau Unigol	8.00	Local Papers	2.00
Ymddiriedolaeth Olympaidd - Ysbryd 2012	42.00	Parks for People	10.00
Miliynau'r Bobl	4.05	Reaching Communities	150.00
Yr Ymddiriedolaeth Gyfryngau	0.16	Reaching Communities Buildings	11.94
Dysgu Efelychu ac Arloesedd - grantiau strategol	1.32	Silver Dreams	7.73
Research for Impact	15.00	Strategic Investment 'Top up'	30.00
Ysbryd 2012 - Bydd Barod i Newid	2.50	Lles	40.00
Ysbryd 2012 - Cymryd Rhan	1.50		732.87
Ysbryd 2012 - Gorau Personol	1.00		
Ysbryd 2012 - Sustrans	0.30		
Dyfarniadau Unigol DU	12.00		
Cyn-filwyr y Rhyfel Byd Cyntaf	1.00		
Ymgyrch Ddysgu Pentref SOS	1.50		
Ymgysylltu Ieuencid	4.00		
	138.45		

	Cyllideb Gymeradwy 13/14 £m
Ariannu yn Yr Alban	
2014 Communities	1.14
2014 Legacy	0.50
Arian i Bawb (Yr Alban)	10.04
Becoming a Survivor (cronfa uplift)	2.00
Building Capital capacity	1.00
Celebrate 2014	0.55
Communities & Families Fund	0.60
Investing in Communities Community Spaces	1.70
Criminal Justice Joint Scheme	0.15
Portffolio Dynamic Inclusive Communities	0.05
Great Ideas /dyfarniadau unigol	2.00
Growing Community Assets	0.26
Investing in Communities: Support & Connect	10.00
Investing in Communities: Responsive	1.60
Investing in Communities 10/13	59.48
Investing in Ideas	0.79
Ymddiriedolaeth Life Changes	5.00
Our Place	1.37
Buddsoddiad Cymdeithasol	1.00
Grantiau Bach Survive & Thrive	0.15
Young Start	3.75
	103.13


	Cyllideb Gymeradwy 13/14 £m
Ariannu yng Nghymru	
Arian i Bawb Cymru	3.50
Awydd am Arloesi	1.57
Dyfodol Disglair	14.00
Lleisiau Lleol	0.43
Camdriniaeth Ddomestig	2.00
Sgiliau Bywyd	0.15
Pawb a'i Le	23.12
Ariannu Seiliedig ar Leoedd	0.08
	44.84
	Cyllideb Gymeradwy 13/14 £m
Gogledd Iwerddon	
Ageing Model	1.00
Arian i Bawb Gogledd Iwerddon	4.00
Culture For All	0.78
Impact of Alcohol – ar draws Gogledd Iwerddon	4.00
Impact of Alcohol (contract datblygu a chefnogi)	0.30
Investing in Ideas	2.00
Contract Iechyd Meddwl	3.00
Reaching Communities Northern Ireland	4.00
Reaching Out - Supporting Families	1.00
Reaching Out - Supporting Families (contract datblygu a chefnogi)	0.30
Reaching Out Connecting Older People	2.00
Buddsoddiad Cymdeithasol	2.00
Cronfa Efelychu Reaching Communities	1.00
	25.38

Cyllideb costau gweithredu

Mae'r Gronfa'n anelu at reoli ei chostau gweithredu'n llym ac, ynghyd â'r holl Ddosbarthwyr Loteri, mae'r Llywodraeth wedi gofyn i ni leihau ein costau gweithredu craidd i 5 y cant o incwm a dderbynnir gan y loteri erbyn 2014/15. Rydym wedi cytuno i gwrdd â'r targedau hyn. Mae'r costau hyn yn ymwneud yn bennaf â phrosesu ceisiadau a rheoli grantiau, gan gynnwys yr holl gostau cyffredinol. Yn ogystal â hyn mae'r Llywodraeth yn caniatáu i'r Gronfa wario hyd at 3 y cant o'n costau ar wariant rheng flaen penodol y mae angen i ni eu talu er mwyn cynyddu ein heffaith ariannu yn unol â chyfarwyddiadau polisi - er enghraifft cynnal ymchwil a gwerthuso, cefnogi deiliaid grantiau.

Yn 2011 amlinellodd ein Bwrdd gynllun tymor hir i gyflawni arbedion ar draws y busnes. Yr her yw cyflawni targed y Llywodraeth yn erbyn yr ansicrwydd ynghylch lefel incwm y Loteri yn y dyfodol; swm yr incwm y byddwn yn ei ennill o raglenni trydydd parti; ac amseru a graddfa y manteision ariannol yn sgil system rheoli ariannu newydd sydd i fod i gael ei chwblhau eleni a fydd yn symud rhan fawr o'n busnes ar-lein.

DPA - Costau Gweinyddu Gwirioneddol o'u cymharu â Sylfaen Chwyddiant 2005/2006



Dengys y siart uchod sut mae costau gwirioneddol wedi gostwng ers 2004/05, y flwyddyn y cafodd y Gronfa Loteri Fawr ei ffurfio wrth i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol gyfuno, o'i gymharu â'r hyn a fyddai wedi digwydd petaent wedi codi'n unol â chwyddiant yn unig.

Bydd arbedion parhaus o ran costau eleni'n cael eu cyflawni trwy gyflwyno ar newid strwythurau adrannol, gwelliannau proses ac arbedion eiddo sydd wedi bod yn yr arfaeth. Mae'n arfer safonol i ni geisio dysgu gan fudiadau eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Wrth ystyried unrhyw newidiadau, rydym yn ceisio sicrhau na fydd y rhain yn effeithio ar ein gallu i ariannu mewn ffordd hygyrch a theg, rheoli risg ceisiadau twyllodrus, darparu gwasanaeth cwsmeriaid da ac, yn bwysicaf oll, sicrhau bod ein rhaglenni'n cael effaith gadarnhaol. Mae asesiadau annibynnol o'r Gronfa Loteri Fawr, gan gynnwys Buddsoddwyr mewn Pobl, Model Rhagoriaeth y Sefydliad Ewropeaidd dros Reoli Ansawdd (EFQM) a Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid y Llywodraeth yn annog gwelliant parhaus ac yn dweud wrthym pa mor dda yr ydym yn perfformio o'n cymharu â mudiadau eraill. Ar hyn o bryd rydym yn dal gradd 4 seren gan EFQM.

Y gyllideb costau gweithredu ar gyfer 2013/14 a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2013 yw £54.7 miliwn. Mae'n ystyried costau ychwanegol disgwylidig y system rheoli ariannu newydd (dibrisio, costau cefnogi TG), ond nid yw'n cynnwys gwireddu buddion eto yn sgil y buddsoddiad yn unol ag achos busnes y system rheoli ariannu, er y bydd y rhain yn dechrau llifo o'r eiliad yr aiff y system yn fyw.

Nifer y Staff

Ar 31 Mawrth 2013, cyflogodd y Gronfa 988 o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn (CaALI). Roedd hyn yn cynnwys 40 o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn dros dro. Nid yw'r Gronfa'n targedu niferoedd yn benodol fel mesur effeithlonrwydd gan fod targedau costau gweithredu'r Loteri'n ddangosyddion gwell. Un rheswm, fel yr esboniwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol, yw y gallai nifer y staff godi a gwrthbwyso gostyngiadau cynlluniedig os yw'r Gronfa'n cyflwyno cynlluniau ariannu ar ran cleientiaid trydydd parti. Mae'r Gronfa'n disgwyl y bydd nifer y staff yn gostwng 100 - 150 CaALI dros y 12 - 18 mis nesaf. Bydd y gostyngiadau'n cael eu cyflawni'n bennaf trwy ailstrwythuro adrannau ond yn bennaf trwy roi'r SRhA ar waith, a fydd yn lleihau ein costau unedol o ran prosesau ceisiadau am grantiau a rheoli grantiau'n sylweddol. Ceir ansicrwydd ynghylch amseru gostyngiadau mewn CaALI gan ei fod yn dibynnu ar roi'r System ar waith yn llawn a'r angen am sicrhau cefnogaeth ar gyfer cwsmeriaid yn ystod y newid i wasanaethau ar-lein.

Targed blynyddol:
mae o leiaf 80% o'r cyfanswm cyllideb grant cytunedig ar gyfer 2013/14 wedi'i hymrwymo.

Targed blynyddol:
mae'r SGCh yn derbyn o leiaf 80 y cant o'n hariannu.

Targed blynyddol:
erbyn diwedd y flwyddyn mae'r grantiau a delir i'r holl brosiectau a ariannwn o fewn 20 y cant o'r cyfanswm taliadau rydym yn eu rhagfynegi.

Targed blynyddol:
mae'r cyfanswm costau gweithredu (craidd a rheng flaen) wedi cyrraedd 7.4 y cant neu lai o incwm gan y Loteri.

Targed blynyddol:
mae'r costau gweithredu craidd wedi cyrraedd 5.4 y cant neu lai o incwm gan y Loteri.

Amcan corfforaethol dau:

Dywedodd y rhai sydd wedi ymholi am ein hariannu, ymgeisio amdano neu ei dderbyn ein bod yn darparu gwasanaeth ardderchog iddynt. Mae gennym berthnasoedd cryf a chadarnhaol gyda budd-ddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Byddwn yn mesur ein llwyddiant yn erbyn yr amcan strategol hwn drwy arolygon boddhad cwsmeriaid rheolaidd ledled y DU a gyflawnir ar ein cyfer gan IPSOS MORI. Caiff samplau eu tynnu o ymholwyr cyn-ymgeisio, ymgeiswyr llwyddiannus, ymgeiswyr aflwyddiannus a deiliaid grantiau. Gwyddwn ei fod yn bwysig y gall eraill fod â hyder yn ein gallu i weithredu'n effeithiol, ac felly byddwn yn comisiynu Arolwg Budd-ddeiliaid ac o fewn hyn, Arolwg manwl o AS, yn ogystal â monitro sylw yn y wasg yn ystod y flwyddyn.

Dangosyddion perfformiad allweddol:

- boddhad cwsmeriaid
- cysylltiadau â budd-ddeiliaid allweddol
- enw da cyhoeddus cryf a chadarnhaol

Bob blwyddyn darparwn gyngor i filoedd o ymholwyr, ymgeiswyr a deiliaid grantiau. Bydd y gefnogaeth hon yn dod o'n gweithwyr ein hunain a hefyd staff yr amryw asiantaethau cefnogi sy'n gweithio gyda ni.

Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2013 cysylltodd ein staff ledled y DU â mwy na 74,000 o bobl a ymholodd am grant gan y Gronfa Loteri Fawr. Ymatebodd staff yn ein canolfannau gweithredu i fwy na 5,000 o gynigion amlinellol a bron 25,000 o geisiadau am grantiau, a chefnogwyd mwy na 29,500 o fudiadau sy'n derbyn grant gan y Gronfa Loteri Fawr. Dyma gynnydd yn y niferoedd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a disgwyliwn i'r duedd hon barhau y flwyddyn nesaf.

Tua diwedd y llynedd, lansiodd ein gwefan wedi'i hailddylunio a'i hailadeiladu. Bydd prosiect pellach eleni i greu adran gymuned ryngweithiol ac i wella adran cymorth a chefnogaeth y wefan. Rydym eisoes wedi uwchraddio ein system ffonau a dod â llinell gymorth y Gronfa i mewn i'r mudiad yn ein prif swyddfeydd yng Nghaerdydd, Newcastle, Glasgow a Belfast. Credwn fod cefnogaeth well yn deillio o fuddsoddi mewn ymchwil i ddeall anghenion a lefelau boddhad ein cwsmeriaid, deall amrywiaeth ein sylfaen gwsmeriaid, a sicrhau ein bod yn cynnwys cwsmeriaid mewn profi ein syniadau wrth i ni eu datblygu. Gall arwain at ddiwygio sut rydym yn esbonio ein gweithdrefnau (ee sut i fonitro prosiect) a darparu gwaith allgymorth wedi'i dargedu i oresgyn pryderon ein cwsmeriaid.

Byddwn yn cyhoeddi ein hymrwymiaadau cwsmer wedi'u gwella ar wefan y Gronfa Loteri Fawr eleni.

Yn 2013/14 byddwn yn parhau â'r profion manwl, hyfforddiant staff a symud data ar gyfer ein system prosesu gwybodaeth grantiau newydd. Ochr yn ochr â hyn byddwn yn hyrwyddo deialog ynghylch y newidiadau rydym wedi'u cynllunio gyda chwsmeriaid a budd-ddeiliaid a thrwy erthyglau yn y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol.

Bydd y system newydd hon yn cynyddu maint ein cyfathrebu ar-lein gyda chwsmeriaid. Mae'r cam profi wedi bod yn hwy na'r hyn a ddisgwyliwyd ond rydym wedi defnyddio'r amser i ymgynghori â busnesau eraill a rhannau o'r sector cyhoeddus sydd wedi symud ar-lein, er mwyn dysgu o'u profiadau.

Byddwn yn sicrhau y gall ein cwsmeriaid, yn bennaf elusennau a'r unigolion a'r cymunedau mwyaf difreintiedig, baratoi ar gyfer y newid. Mae'n bwysig i ni nad yw eu problemau wedi'u cymhlethu gan ddiffyg mynediad neu ddealltwriaeth ynghylch yr hyn y mae'n bosib ei wneud ar y we.

Yn ystod y flwyddyn bydd ein Diploma Uwch mewn Gwneud Grantiau'n cael ei lansio. Dyma gymhwyster



ar Lefel Brifysgol sy'n agored i'r holl staff ac wedi'i gydnabod yn genedlaethol. Gall ein cwsmeriaid ddisgwyl cael eu cefnogi gan bobl sy'n cael cyfleoedd addysg a datblygu proffesiynol. Bydd y Diploma'n sicrhau y gall ein staff gael cydnabyddiaeth ffurfiol o'u sgiliau.

Yn ein harolwg DU gyfan cyntaf o Fudd-ddeiliaid SGCh allweddol, dywedodd 74 y cant o ymatebwyr wrthym eu bod yn ystyried y Gronfa i fod yn gorff effeithiol o ran gwneud grantiau. Pan ofynnwyd iddynt ddewis un gair i ddisgrifio'r Gronfa, yr ansoddeiriau a ddewiswyd yn amlaf oedd: credadwy, cefnogol, profiadol, hygyrch, perthnasol, strategol a dibynadwy.

Targed blynyddol: mae o leiaf 77 y cant o gwsmeriaid yn hapus gyda'n gwasanaeth

Monitro: canran y budd-ddeiliaid sy'n ystyried bod y Gronfa'n effeithiol; canran yr Aelodau Seneddol sy'n ystyried bod y Gronfa'n effeithiol; sylw yn y cyfryngau

Amcan corfforaethol tri:

Mae ein rhaglenni ariannu'n dod â gwir welliannau i fywydau ein buddiolwyr

Dangosydd perfformiad allweddol:

Effeithiolrwydd rhaglenni: Byddwn yn cyflawni adolygiad blynyddol o raglenni grantiau i asesu eu heffeithiolrwydd ar draws tri phrif faes: rheoli rhaglenni, dysgu ac effaith. Cynhelir adolygiad blynyddol mewnol ar gyfer pob rhaglen, yn dechrau blwyddyn ar ôl y lansiad. Ar y sail hon gallwn bennu ble mae'r rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth a chipio dysg. Bydd yr adolygiadau hyn yn cynnwys elfen adolygu cymheiriaid ac yn defnyddio'r ymchwil sydd ar gael, gan gynnwys canfyddiadau gwerthusiadau.

Cyhoeddir adroddiadau ymchwil a gwerthuso'n allanol a gellir dod o hyd iddynt ar ein gwefan yn: www.cronfaloterifawr.org.uk/welsh/research.

Er mwyn bod yn ariannwr hynod o effeithiol, ein hegwyddor drosgynnol yw bod yn rhaid i'n hariannu alluogi newid cymdeithasol cadarnhaol a gwneud gwir wahaniaeth i gymunedau ac unigolion anghenus. Yn ogystal â'r canlyniadau a gyflawnwyd drwy ein prosiectau a'n rhaglenni, anelwn at fod yn ddosbarthwr gwybodaeth yn ogystal â dosbarthwr ariannu. Mae'n un o'n hegwyddorion sylfaenol ein bod yn creu cyfleoedd ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, dysg a syniadau rhwng y prosiectau a ariannwn, ac adlewyrchir hyn yn gryf yn y gweithgareddau y byddwn yn eu cyflawni yn ystod y flwyddyn i ddod.

Tua diwedd y llynedd ymrwymodd y Gronfa werth £50 miliwn o fuddsoddiad dros 10 mlynedd i ariannu'r Ganolfan Heneiddio'n Well, sydd i fod i agor yn 2014. Mae cynlluniau bellach yn cael eu datblygu ar y cyd gyda grwpiau pobl hŷn a budd-ddeiliaid gan gynnwys y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Iechyd. Bydd y ganolfan yn un o bedwar corff cywain tystiolaeth (y canolfannau What Works) sy'n anelu at wella gwybodaeth a thystiolaeth mewn

meysydd allweddol sy'n gwario dros £200 biliwn o arian cyhoeddus.

O fewn y Gronfa byddwn yn aildrefnu'r ffordd rydym yn gweithio i sicrhau ein bod yn rhoi gwell blaenoriaeth i ddadansoddi tystiolaeth ac effaith yn sgil ein hariannu, ynghyd ag ymchwil a dadansoddiadau rhagwelediad. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn cael cefnogaeth wrth osod y sylfaen ar gyfer strategaeth ariannu'r dyfodol y tu hwnt i 2015, yn seiliedig ar ddadansoddiad o effaith, dysgu o'r tu mewn i'n hariannu a'r byd ehangach, a rhagfynegi anghenion cymdeithasol dros y tymor hwy. Mae'r sylfaen ar gyfer ein strategaeth yn y dyfodol yn dechrau yn 2013/14.

Mae ein gwefan newydd eisoes yn rhoi gwell mynediad i gefnogaeth, gwybodaeth, syniadau ac ymchwil y sector gwirfoddol a chymunedol. Mae cymuned ar-lein y Gronfa Loteri Fawr, sy'n lansio yn haf 2013, yn welliant pellach i annog cyfnewid gwybodaeth am brosiectau, ymchwil a mesur effaith yn well. Hefyd eleni, mae'r Gronfa wedi dechrau ar bartneriaeth gyda'r Sefydliad dros Lywodraeth, sy'n galluogi arweinwyr y sector gwirfoddol a chymunedol yn gweithio ar rai o'n buddsoddiadau mwyaf trawsnewidiol i ddysgu wrth ochr uwch swyddogion Whitehall am sut i newid arfer i bolisiau.

Byddwn yn ymgymryd â nifer o weithgareddau gan gynnwys cynnal Diwrnod Data Agored gyda Swyddfa'r Cabinet, NESTA, Ymddiriedolaeth Nominet, y Sefydliad Open Knowledge ac eraill. Rydym wedi dechrau rhoi data ymchwil a gwerthuso ar wefan y Gronfa Loteri Fawr a bydd yr adran hon yn cael ei hehangu o dan ein hamcan Data Agored.

O fewn y Gronfa rydym yn annog dysgu trwy ystod o fentrau gan gynnwys The BIG Exchange, sy'n ymwneud â siaradwyr yn dod i'r Gronfa i esbonio eu gwaith, neu staff yn treulio un neu ddau ddiwrnod ar secondiad i un o'n deiliaid grantiau i'w gweld nhw ar waith a dod yn ôl gyda dysgu sy'n helpu eu rôl o wneud grantiau.

Y Gronfa Loteri Fawr yw dyfarnwr grantiau cyffredinol mwyaf y DU. Mae ein Bwrdd wedi cymeradwyo cyllideb grantiau gwerth £1044.67 miliwn ar gyfer 2013/14. Fel y gellir ei weld o'r cyllidebau wedi'u dyrannu ar dudalennau 14 i 15, mae gennym nifer o raglenni newydd yn yr arfaeth, sy'n amodol o hyd ar benderfyniadau pwyllgorau gwlad, y bydd angen darparu adnoddau ar eu cyfer, eu dylunio'n llawn a'u hadeiladu yn ystod y flwyddyn cyn y gellir eu lansio'n gyhoeddus. Bydd rhywfaint o'r ariannu a restrir yn ymwneud â pharhau i wneud dyfarniadau ar raglenni cyffredol. Mae'n rhan allweddol o gyflwyno ein strategaeth o gynnal portffolio rhaglenni cymysg ac amrywiol sy'n cyflwyno ar sail blaenoriaethau ariannu Meddwl o'r Newydd. Rydym yn gweithredu pum portffolio – ariannu ar gyfer prosiectau sy'n cyflwyno canlyniadau DU gyfan, ariannu ar gyfer canlyniadau yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae gan bob portffolio o leiaf un rhaglen agored i ymateb i'r anghenion y mae cymunedau yn eu hadnabod ac yn ceisio ariannu ar eu cyfer. Mae ein rhaglenni uchel eu proffil, Reaching Communities yn Lloegr a Reaching Out yng Ngogledd Iwerddon, Pawb a'i Le yng Nghymru ac Investing in Communities yn Yr Alban yn rhaglenni agored. Trwy'r rhaglenni hyn rydym yn annog cydweithio a gwaith partneriaeth ar draws y SGCh.

Mae gan bob portffolio o leiaf un ymyrraeth wedi'i thargedu a strategol i ganolbwyntio ar fater neu ardal ddaearyddol benodol lle mae ymchwil yn dweud wrthym y gallwn wneud gwahaniaeth. Eleni mae ein portffolios yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ffocysu ar y blynyddoedd cynnar iawn, pobl ifanc sydd ymhellach o'r farchnad swyddi, pobl hŷn sy'n unig ac oedolion ag anghenion lluosog a chymhleth. Pan ydym yn ystyried y materion hyn a materion strategol eraill, mae pedair ystyriaeth sylfaenol ynghlwm wrth gyflwyno ymyrraeth lwyddiannus:

- ▶ **Partneriaeth:** lle gall y Gronfa frocra partneriaethau rhwng y SGCh, y sector preifat a gwasanaethau statudol i fynd i'r afael â phroblemau y mae pobl a chymunedau'n eu hwynebu. Dyma'r materion sydd y tu hwnt i gyrraedd adrannau ac asiantaethau Llywodraeth unigol yn gweithio mewn ffyrdd traddodiadol.
- ▶ **Hysbysu gan ddefnyddwyr:** Cynnwys pobl yn uniongyrchol wrth ddatblygu, dylunio a chyflwyno cynlluniau ar gyfer ymyrraeth.
- ▶ **Lleol:** profi a chyflwyno ymagweddau sy'n cynnwys pobl leol eu hunain yn y ffordd orau o wella'u cymunedau. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn rhoi pŵer i bobl leol ddefnyddio eu sgiliau eu doniau a'u hadnoddau i adnabod problemau a dod o hyd i atebion sy'n gweithio ar gyfer eu cymunedau.
- ▶ **Tymor hir:** byddwn yn buddsoddi am gyhyd ag y mae'n ei gymryd i sicrhau canlyniadau parhaus.

Mae rhai enghreifftiau o ymyrraethau strategol wedi'u disgrifio isod.

- bydd **Ailfeddwl Iechyd Da**'n cefnogi prosiectau sy'n cywain tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio o ran atal camddefnyddio alcohol ymysg pobl hŷn, er mwyn cyfeirio polisiâu ac arfer ledled y DU. Bydd yr arian yn mynd i bartner arweiniol i reoli a datblygu'r fenter hon.
- **rhaglen Gwydnwch** sydd â'r nod o atal cyflyrau iechyd meddwl y gellir eu diagnosio rhag ymwreiddio mewn pobl ifanc. Bydd arian ar gyfer y buddsoddiad 'profi a dysgu' hwn yn cael ei gyflwyno mewn nifer bach o ardaloedd arddangos yn Lloegr.
- bydd **Supporting Families** yn ariannu prosiectau yng Ngogledd Iwerddon sy'n cefnogi teuluoedd i wella bywydau plant trwy adeiladu perthnasoedd cryf a meithringar. Ar ôl astudio'r sylfaen dystiolaeth a chanlyniadau ein hymgyngoriad, byddwn yn chwilio am brosiectau sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar. Bydd

prosiectau'n gweithio gyda theuluoedd â phlant o dan ddeuddeg oed, a byddant yn cael eu hannog i ddatblygu partneriaethau a gwaith ar y cyd.

- bydd **Ymddiriedolaeth Ariannu Seiliedig ar Leoedd** yn cael ei gwaddoli i gefnogi prosiectau yng Nghymru sy'n anelu at helpu cymunedau i ddatblygu ffyrdd o liniaru effaith tlodi trwy ddatblygu cyfalaf cymdeithasol ac isadeileddau cefnogaeth lleol.
- bydd ariannu'n cael ei dargedu at rai prosiectau peilot yng Nghymru sy'n anelu at wella **canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal** ac sy'n ymdrin ag effaith camdriniaeth ddomestig ar bobl ifanc.
- mae **Becoming a Survivor** yn fenter yn Yr Alban sy'n buddsoddi mewn prosiectau i helpu mynd i'r afael â camdriniaeth ddomestig. Yn dilyn ein buddsoddiad o £6.5 miliwn mewn prosiectau yn gynnar yn 2012 i gyflwyno modelau arfer da megis CEDAR, bwriadwn wario £8 miliwn pellach yn 2013/14 i gefnogi prosiectau sy'n helpu pobl i deimlo'n ddiogel ac wedi'u cefnogi mewn aelwyd o'u dewis.
- mae **Heneiddio'n Well** yn herio ardaloedd dewisedig yn Lloegr i lunio cynlluniau i fynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol ymysg pobl hŷn.
- mae **Support and Connect** yn anelu at wella'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer pobl sy'n profi caledi ac anghenion materol trwy ariannu gwasanaethau megis cyngor ariannol a gweithgareddau i fynd i'r afael â thlodi bwyd - yn ogystal â chreu cysylltiadau rhwng gwasanaethau lleol er mwyn iddynt gefnogi pobl yn fwy effeithiol. Byddwn yn gwneud grantiau gwerth o leiaf £10 miliwn yn ystod y flwyddyn i ddod.

Ariannu ar gyfer Efelychu, Prosiectau Rhyngwladol a Chynnwys y Cyhoedd

Bydd hyd at 10 y cant o gyllideb 2013/14 yn cael ei ymrwymo i dair thema a ddisgrifir yn ein Cyfarwyddiadau Polisi:

- ▶ Efelychu - ar gyfer ymyraethau a fydd yn galluogi ac yn annog dysgu rhwng Gwledydd y DU;
- ▶ Cynnwys y Cyhoedd er mwyn cynnwys y cyhoedd wrth lunio polisi, pennu blaenoriaethau a gwneud penderfyniadau ar grantiau;
- ▶ Prosiectau Rhyngwladol.

Dyma rai enghreifftiau:

- Bydd **Ymddiriedolaeth Ysbryd 2012** yn cael ei gwaddoli i gefnogi prosiectau ym mhob cwr o'r DU a ysbrydolir gan y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd ac sy'n annog gwirfoddoli a chynnwys y gymuned.
- bydd **rhaglen amgylcheddol** DU gyfan yn cael ei datblygu ac yn gwneud rownd gyntaf o ddyfarniadau eleni i brosiectau sy'n cefnogi pobl ifanc i gymryd rhan yn gynyddol mewn gwella'u hamgylchedd lleol ac ennill sgiliau a gwybodaeth i gefnogi economi werdd
- mae rhaglen **Cymunedau Rhyngwladol** yn darparu ariannu ar gyfer mudiadau seiliedig yn y DU sy'n rhedeg prosiectau mewn cymunedau difreintiedig tramor drwy weithio gyda phartneriaid lleol. Mae gwerthusiad yn mynd yn ei flaen i gywain tystiolaeth a fydd yn cyfeirio ariannu pellach pan ddaw'r rhaglen hon i ben yn 2014;
- bydd rownd bellach o'r rhaglen **Miliynau'r Bobl**, sy'n annog pobl i ymgeisio i'r Loteri am y tro cyntaf ac yn cynnwys y cyhoedd mewn pleidlais i benderfynu pa brosiectau sy'n cael eu hariannu.
- y **Cinio Mawr** i ddod â chymunedau ynghyd i rannu bwyd a sgwrs. Y llynedd denodd Cinio Mawr y Jiwbilî 8.5 miliwn o bobl a gobeithiwn gynnal y lefel ddiddordeb hon yn 2013. Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ariannu Cinio Mawr blynyddol ers 2009.

Ariannu ar gyfer Datblygu'r Farchnad Buddsoddi Cymdeithasol

Mae ein Cyfarwyddiadau Polisi'n pwysleisio ymrwymiad y Gronfa Loteri Fawr i gefnogi datblygiad a chapasiti'r farchnad buddsoddi cymdeithasol ddatblygol. Er mai grantiau ariannu traddodiadol fydd ein rôl bennaf o hyd, rydym yn awyddus i ymchwilio i sut y gall buddsoddiad cymdeithasol wneud gwahaniaeth ar gyfer cymunedau a'r rhai mwyaf anghenus. Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn ystyried ystod o gyfleoedd newydd i ddatblygu potensial y farchnad ymhellach; bydd hyn yn cynnwys cefnogi cyfres gryfach o fudiadau addas i fuddsoddi ynddynt yn Yr Alban, annog mwy o ddefnydd o ymagweddau buddsoddi seiliedig ar gymunedau megis cyfranddaliadau cymunedol, ac ariannu ymchwil er mwyn i fuddsoddwyr cymdeithasol a mudiadau trydydd sector gael mynediad i wybodaeth well am ei gilydd. Dyma rai enghreifftiau o fuddsoddiadau sy'n mynd yn eu blaen yn Lloegr eleni:

- lansio cronfa gwerth £10 miliwn ar gyfer mudiadau trydydd sector i symud tuag at barodrwydd i fuddsoddi, er mwyn iddynt wella'u cynladwyedd, eu capasiti a'u graddfa i gyflwyno gwell effaith gymdeithasol. Byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei gyfeirio gan ymchwil i barodrwydd i fuddsoddi a gomisiynwyd gennym a'i fod yn gweddu i gefnogaeth sydd eisoes yn bodoli yn y maes hwn, sef Cronfa Parodrwydd i Fuddsoddi a Chontractio Swyddfa'r Cabinet sy'n cael ei gyflwyno gan Y Busnes Buddsoddi Cymdeithasol.
- lansio cronfa gwerth £40 miliwn i dyfu'r farchnad mewn Bondiau Effaith Gymdeithasol ac offerynnau buddsoddi seiliedig ar ganlyniadau eraill er mwyn i fwy o bobl, ac yn enwedig y rhai mwyaf anghenus, fyw bywydau cyflawn mewn lleoedd llewyrchus, fel rhan o gymunedau llwyddiannus. Credwn y bydd hyn yn galluogi comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau (yn enwedig mudiadau trydydd sector) i fod yn fwy parod i gymryd rhan yn yr hyn sy'n rhan ddatblygol o'r farchnad o hyd. Rydym wedi alinio'r gronfa hon yn agos â Chronfa Canlyniadau Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet, sydd ar agor i geisiadau ar hyn o bryd.

Targed blynyddol:

bydd 92 y cant o raglenni grantiau'n cyflawni eu gradd effeithiolrwydd gytunedig



Y Gronfa Loteri Fawr ac incwm arall

Mae gennym brofiad sylweddol bellach o ariannu ar ran mudiadau eraill ac, fel y bwriadwyd, mae'r nifer mawr o brosiectau a dderbyniodd y cyfryw grantiau'n creu canlyniadau sy'n gweddu'n dda i'n cenhadaeth a'n gwerthoedd.



Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn parhau i sicrhau bod ein systemau a'n harbenigedd ar gael i eraill a all eu defnyddio i gyflawni canlyniadau cadarnhaol drwy eu rhaglenni ariannu eu hunain. Rydym yn atebol am y cyfryw ariannu trydydd parti ac yn ei hyrwyddo ar wahân i ariannu'r Loteri. Bernir effeithiolrwydd y grantiau a ddyfarnwn yn erbyn yr amcanion y cytunir arnynt gyda'n cleientiaid. Mae ein costau gweithredu mewn perthynas â hyn yn annibynnol i'n rhaglenni Loteri, fel y mae targedau perfformiad allweddol eraill, ond bydd ein hamcanion o ran safonau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a gwasanaeth cwsmeriaid uchel yn cael eu cymhwyso yr un mor drwyadl, a'u monitro'n ofalus.

O dan ariannu trydydd parti bydd y Gronfa Loteri Fawr yn cyflwyno'r cynlluniau a ganlyn:

- parhau â'r Gronfa Scottish Land newydd ar ran Llywodraeth Yr Alban ac mewn partneriaeth â menter yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd. Mae'n helpu cymunedau gwledig i gymryd perchnogaeth ar dir ac asedau lleol ac yn 2013/14 byddwn yn gwneud dyfarniadau newydd yn ogystal â chefnogi prosiectau sydd eisoes yn bodoli a rhai potensial. Byddwn hefyd yn parhau i reoli Cronfa Ymyrraeth Gynnar y Trydydd Sector ar ran Llywodraeth Yr Alban. Mae'r rhaglen hon yn anelu at gefnogi'r sector cyhoeddus i gyflawni gwell canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc, a'r teuluoedd a



chymunedau sy'n eu cefnogi nhw. Wedi gwneud dyfarniadau ym mis Ebrill 2013, yn ystod gweddill y flwyddyn i ddod byddwn yn rheoli'r grantiau hyn ac yn cefnogi mudiadau i gyflawni eu canlyniadau.

- parhau i redeg Arian i Bawb Yr Alban ar y cyd ar ran dau ddosbarthwr Loteri arall, **sportscotland** a Creative Scotland, ac ar ein rhan ni ein hunain.
- rhaglen dosbarthwyr Loteri ar y cyd newydd sy'n gysylltiedig â Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn 2014. Mae'r rhaglen Celebrate yn cynnig cyfle i gymunedau ar draws yr Alban dderbyn ariannu ar gyfer digwyddiadau i ddathlu'r Gemau neu ddiwylliant a gwerthoedd y

Gymanwlad. Fe'i ariennir hyd at ddiwedd 2014 gyda £1 miliwn yr un gan Creative Scotland, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, **sportscotland** a'r Gronfa Loteri Fawr.

- parhau â'r Communities and Families Fund, a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth Yr Alban a'r Gronfa Loteri Fawr i gefnogi prosiectau lleol sy'n helpu teuluoedd a chymunedau i roi'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant.

Cyfrifon Segur

Mae'n rhwymedigaeth statudol ar y Gronfa Loteri Fawr i reoli dosbarthiad ariannu i achosion da o gyfrifon banc a chymdeithas adeiladu segur, a dyma ffactor pwysig wrth gynllunio ein hadnoddau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Ers y cyhoeddiadau gwreiddiol am rôl y Gronfa Loteri Fawr yn 2010, mae'r strwythurau ac awdurdodiadau wedi'u teilwra wedi cael eu llunio i baratoi ar gyfer derbyn a dosbarthu'r ariannu. Mae arian Cyfrifon Segur yn trosglwyddo i'r Gronfa Loteri Fawr o gronfa Reclaim Cyf (RFL) ac maent wedi'u dosbarthu rhwng pedair gwlad y DU i'w ddefnyddio yn unol â'r cyfarwyddiadau polisi a gyhoeddir gan y gweinidogion unigol.

- ▶ Mae ein cyfarwyddiadau polisi gan Swyddfa'r Cabinet yn datgan y dylai cyfran Lloegr i gyd gael ei dosbarthu i Ymddiriedolaeth y Gymdeithas Fawr, i'w buddsoddi mewn Big Society Capital Ltd. Bydd Big Society Capital yn gwneud rownd bellach o ddyfarniadau eleni. Ar wahân i drosglwyddo'r arian, nid oes gan y Gronfa Loteri Fawr unrhyw rôl yn y penderfyniadau a wneir gan Big Society Capital.
- ▶ Mae ein cyfarwyddiadau polisi gan Lywodraeth Cymru'n datgan y gellir defnyddio 80 y cant i gefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial llawn, gyda'r gweddill yn mynd i'r afael â newid hinsawdd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Eleni bydd y Gronfa Loteri Fawr yn dyfarnu peth o'r ariannu o dan Ar y Blaen, rhaglen i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal a phobl ifanc sydd wedi troseddu trwy leoliad gwaith 6 mis â thâl. Bydd yn rhoi profiad gwaith gwerthfawr iddynt ac yn eu cefnogi wrth ddod o hyd i gyflogaeth yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn buddsoddi amser yn datblygu meysydd ariannu eraill mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru ac eraill i adnabod blaenoriaethau.
- ▶ Mae ein cyfarwyddiadau polisi gan Weinidogion Yr Alban yn adnabod pedair thema: cyfleoedd i blant a phobl ifanc; mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy fwy o weithgareddau; cryfhau gweithgareddau rhwng y cenedlaethau; a chreu cyfleoedd cyflogaeth gymunedol.
- ▶ Rydym yn aros am gyfarwyddiadau polisi gan Gynulliad Gogledd Iwerddon.

ATODIAD A

Yr Uwch dîm rheoli

Peter Wanless
Prif Weithredwr
(tan 31 Mai 2013)

Robert Atkins
Dirprwy Gyfarwyddwr, Strategaeth a Pherfformiad

Mark Cooke
Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Ariannol a Chorfforaethol

Ceri Doyle
Cyfarwyddwr, Strategaeth Perfformiad a Dysgu
Prif Weithredwr Gweithredol (o 1 Mehefin 2013)

Dharmendra Kanani
Cyfarwyddwr, Lloegr

Jackie Killeen
Cyfarwyddwr, Yr Alban

Joanne McDowell
Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon

Linda Quinn
Cyfarwyddwr, Cyfathrebu a Marchnata

John Rose
Cyfarwyddwr, Cymru

ATODIAD B

Aelodau Bwrdd a phwyllgorau



Peter Ainsworth

**Cadeirydd, Bwrdd
Cadeirydd, Pwyllgor Ariannu
DU
Cadeirydd, Pwyllgor Tâl
Cydnabyddiaeth**



Anna Southall

Is-gadeirydd



Nat Sloane

Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr



Frank Hewitt

**Cadeirydd, Pwyllgor Gogledd
Iwerddon**



Maureen McGinn

Cadeirydd, Pwyllgor Yr Alban



Sir Adrian Webb

Cadeirydd, Pwyllgor Cymru



Tony Burton CBE

**Aelod Cyffredinol
Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio
a Risgiau**



Astrid Bonfield

Aelod Cyffredinol



Rajay Naik

Aelod Cyffredinol

Pwyllgorau gwlad

Pwyllgor	Cadeirydd	Aelodau
Pwyllgor Lloegr	Nat Sloane	Alan Billings, Geeta Gopalan, Scott Greenhalgh, Steve Richards Daniel Silverstone, Albert Tucker, Nalini Varma a Geoffrey Wilkinson
Pwyllgor Gogledd Iwerddon	Frank Hewitt	Geraldine Campbell, Paul Cavanagh, Julie Harrison, Claire Keatinge a Peter Osborne.
Pwyllgor Yr Alban	Maureen McGinn	Tim Allan, Elizabeth Cameron, Helen Forsyth, David Green, Hamira Khan (o 1 Chwefror 2013), John McDonald (o 1 Chwefror 2013), Lucy McTernan, a John Watt (o 1 Chwefror 2013).
Pwyllgor Cymru	Adrian Webb	Rona Aldrich, Graham Benfield, Gareth Newton, Janet Reed, Fran Targett, Mike Theodoulou a Barbara Wilding.
Pwyllgor Ariannu DU	Peter Ainsworth	Astrid Bonfield, Frank Hewitt, Lucy McTernan, Rajay Naik, Steve Richards, Anna Southall, a Mike Theodoulou.